# Llawlyfr y Dosbarth Derbyn

Ysgol Gymraeg Pwll Coch





# Croeso

Croeso cynnes i deulu Ysgol Gymraeg Pwll Coch. Rydym yn hyderus y bydd cyfnod eich plentyn yn ein hysgol, yn un hapus a chofiadwy.

Mae profiadau cyntaf yn yr ysgol yn hynod o bwysig a gwerthfawr. Ein nod yn y Derbyn yw i greu awyrgylch hapus, croesawgar a hamddenol lle mae pob plentyn yn mwynhau profiadau gwerthfawr tra'n teimlo'n ddiogel.

Gobeithio bydd y llyfryn hwn o fudd i chi ac yn ateb llawer o'ch cwestiynau, ac edrychwn ymlaen i gydweithio'n agos gyda chi fel teulu.

## STAFF Y DERBYN

ATHRAWES: MRS EVANS
CYNORTHWY-YDD: MRS HUGHES

**Gwybodaeth Cyswllt**
Ysgol Gymraeg Pwll Coch
Rhodfa Lawrenny
Lecwydd
Caerdydd
CF11 8BR
**Rhif ffôn**:- 02920 373453
**Ebost**:- ysgolpwllcoch@cardiff.gov.uk
**Cyfrif Trydar**: @YsgolPwllCoch
**Gwefan:** www.ygpc.cymru

# Trefniadau Dechrau yn y Derbyn

Mae dechrau yn y dosbarth Derbyn yn ddiwrnod i'w chofio a'i thrysori ac yn gam mawr i lawer o blant. Ceisiwn ei wneud mor hawdd ac mor hapus â phosib i bawb.

Cyn i'r plant ddechrau, mae yna gyfarfod i rieni. Mae croeso i'r plant ddod hefyd er mwyn ymweld â'r dosbarth, a chwrdd â'r staff a fydd yn gofalu amdanynt. Bydd y plant yn dechrau'r ysgol ar ddiwrnodau gwahanol ym mis Medi er mwyn sicrhau bod y grwpiau yn ddigon bach i'r staff medru rhoi digonedd o sylw iddynt a'u helpu i ymgartrefu ac i ddod yn gyfarwydd â gwynebau newydd.

Mae'n bosib y bydd rhai yn ddagreuol wrth ffarwelio â chi, ond maent yn cyfarwyddo â hyn yn gyflym. Deallwn ei bod hi'n anodd iawn i chi fel rhieni i adael eich plant os nad ydynt yn hapus ond mae plant yn setlo llawer ynghynt wedi i chi adael, ac mae hefyd angen iddynt arfer bod yn y dosbarth hebddoch chi. Mi wnaiff yr ysgol gysylltu â chi os nad ydynt yn setlo ac mae'n bosib i chi ffonio'r ysgol i ofyn sut maen nhw os ydych yn poeni. Mae'r staff yn gwneud pob dim posib i setlo'r plant oherwydd nid ydynt hwy chwaith yn hoffi gweld y plant yn anhapus. Edrychwn ymlaen at sefydlu partneriaeth agos gyda chi fel teulu.

### Oriau Ysgol: 9:00 - 3:15

Mae'n bwysig eich bod yn dod i'r ysgol ac yn casglu eich plentyn o'r Dosbarth Derbyn ar amser, a rhoi gwybod i ni os bydd rhywun gwahanol yn dod i gasglu. Ni chaniatawn i'ch plentyn fynd gartref gydag unrhywun dieithr. Dewch â'ch plentyn i ddrws yr ystafell gotiau yn y bore, sydd wrth ymyl drws y Feithrin. Pan fyddwch yn casglu ar ddiwedd y dydd, gofynnwn eich bod yn aros tu allan i ddrws allanol y dosbarth sydd ar iard yr ysgol. Byddwn yn trosglwyddo'r plant yn ôl i'r rhieni / gwarcheidwad yn ddiogel, fesul un. Mae mynediad i'r iard drwy'r giât ar ochr chwith yr ysgol.

# Diwrnod Arferol yn y Derbyn

## Dull Trochi Iaith

Yn y Derbyn, defnyddir dull trochi iaith i gyflwyno'r Gymraeg i'r plant sydd yn dod o gartrefi di-Gymraeg. Golygir hyn mai'r Gymraeg yn unig sy'n cael ei ddefnyddio yn y Derbyn gydag ac o amgylch y plant. Mae holl weithgareddau'r ddarpariaeth yn cael eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg.

8:50 - Drysau yn agor

9:00 - Cofrestru a chanu

9:10 - Tasgau ffocws a darpariaeth barhaus

10:00 - Amser chwarae

10:20 - Amser llaeth a ffrwyth

10:30 - Tasgau ffocws a darpariaeth barhaus

11:45 - Amser cinio

12:45 - Cofrestru a meddwlgarwch

1:00 - Tasgau ffocws a darpariaeth barhaus

2:00 - Amser chwarae

2:15 - Cylch Darllen

2:45 - Canu / Stori / Sgwrs

3:15 - Diwedd y dydd

# Paratoi eich Plentyn

## GALLWCH HELPU DRWY ANNOG EICH PLENTYN I...



- fynd i'r tŷ bach yn annibynnol ac i olchi a sychu dwylo. (Mae'n bwysig iawn bod plant yn deall pwysigrwydd golchi dwylo'n dda fel nad yw germau yn cael eu lledu a'u gwneud yn sâl!)
- ofalu am ei bethau/ ei phethau e.e. adnabod cot a'i roi ar fachyn.
- wisgo ei hun, e.e. cot, crys-t, siwmper, cardigan, sanau ac esgidiau ar ôl Ymarfer Corff.
- adnabod ei enw / ei henw fel y gall adnabod bachyn cot.
- dacluso a chymryd cyfrifoldeb am deganau (bydd disgwyl iddynt wneud yn yr ysgol)
- i fwyta'n annibynnol e.e defnyddio cwpan iawn, cyllell a fforc
- i fod yn gwrtais, cyfeillgar a chymdeithasol– bydd hyn yn help iddynt wneud ffrindiau ac i ymgartrefu.

Gallwch hefyd ddarllen llyfrau a gwylio rhaglenni Cymraeg gyda'ch plentyn mor aml â phosib

# Dillad!

Mae dysgu drwy chwarae yn rhan annatod o ddatblygiad plentyn. Rydym ni yn yr ysgol yn rhoi addysg ddiddorol ac ymarferol i'r plant gan wneud y defnydd gorau posib o'n hamgylchfyd wrth eu dysgu.

Mae plant yn mwynhau, yn cofio ac yn darganfod dros eu hunain pan mae'r gwaith yn ymarferol. Er y byddwn yn gwneud ein gorau glas i orchuddio'r dillad â ffedog, mae'n anochel y bydd eich plentyn weithiau yn dod gartref â phaent, glud neu pridd arno.

- Sicrhewch bod enw eich plentyn ar bob ddilledyn. Yn anffodus bydd dillad dal yn mynd ar goll ac yn cael eu cymysgu, ond gydag enwau arnynt mae hi'n llawer haws i ni geisio chwilio am ddillad coll.

- Gwisgwch eich plant mewn dillad addas i'r tywydd. Y dillad nid y tywydd sy'n anaddas i fynd allan! Byddwn yn ceisio mynd allan ym mhob tywydd – glaw, gwynt, haul, eira. Croeso i'r plant wisgo eu welis neu het haul i'r ysgol.

# Gwisg Ysgol!

Gellir archebu gwisg ysgol yn YC Sports yn Nhreganna.








# Ymarfer Corff

Bydd y plant yn gwneud ymarfer corff ar un diwrnod yr wythnos - gofynnwn iddynt ddod i'r ysgol ar y diwrnod hynny yn eu gwisg yn barod. Cewch wybod pa ddiwrnod ym mis Medi. Gofynnwn i'r plant wisgo tracwisg /siorts a chrys-t lliw eu llys. Bydd unrhyw grys-t yn iawn nes ein bod yn rhannu llys eich plentyn gyda chi.

# Dillad Sbâr

Mae damweiniau weithiau yn digwydd, peidiwch â phoeni. Byddwn yn delio â nhw mewn ffordd sensitif. Gwerthfawrogwn petai chi'n gallu anfon bag o ddillad sbâr ag enw'ch plentyn arno i'r ysgol os gwelwch yn dda. Bydd y bag yn aros ar fachyn eich plentyn.

# Hwyl a Sbri!

















## Diod a Byrbryd

Gofynnwn yn garedig i chi ddarparu byrbryd iachus i'ch plentyn wedi ei labelu mewn potyn bach. Os ydych yn darparu grawnwin, cofiwch eu torri yn hanner. Byddwn yn darparu potel bach o laeth i bob plentyn am ddim. Gofynnwn hefyd i bob plentyn ddod â photel o ddŵr wedi ei labelu'n glir â'u henw.

**Mae hi'n bwysig eich bod yn dweud wrthym os ydy'ch plentyn ag alergedd o unrhyw fath!**

## AMSER CINIO

Mae gan bob plentyn yn y Dosbarth Derbyn yr hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim. Mae'n rhaid archebu cinio drwy Parentpay ac fe gewch chi manylion i fewngofnodi ym mis Medi.

# Salwch ac Absenoldebau

Os ydy'ch plentyn yn absennol a wnewch chi ffonio'r ysgol i roi gwybod cyn gynted â phosib. Er ein bod yn pwysleisio pwysigrwydd presenoldeb da, mae'n well cadw eich plentyn gartref os yw'n sâl. Dydyn ni ddim eisiau iddynt drosglwyddo salwch i blant eraill nac i'r staff!
Byddwn yn ymdrechu i gysylltu â chi os ydy'ch plentyn yn sâl yn yr ysgol.

## MEDDYGINIAETH

Os oes angen rhoi meddyginiaeth fel pwmp asthma i'r plant yn ystod oriau ysgol bydd angen i chi gwblhau ffurflen caniatâd a sicrhau bod enw eich plentyn ar y meddyginiaeth. Ni allwn roi moddion gwrthfiotig neu debyg i'r plant yn ystod y dydd. Gofynnir i chi alw yn yr ysgol i'w rhoi neu byddem yn ddiolchgar petaech yn ceisio amseru dosau meddyginiaeth o gwmpas oriau'r ysgol.

# Cyswllt Ysgol a Chartref

Mae cyd-weithio rhwng yr ysgol a'r cartref yn hynod o bwysig ac mae'n bosib i chi helpu eich plentyn mewn amrywiaeth o ffyrdd. Y dull gorau o gefnogi'ch plentyn yw i ganmol ei ymdrechion / ei hymdrechion.

Os oes gennych unrhyw bryderon am eich plentyn, mae croeso i chi drefnu cyfarfod gyda staff yr ysgol ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn.

Tymor yr Hydref: Noson Rieni i drafod sut mae'ch plentyn yn ymgartrefu.
Tymor y Gwanwyn: Noson agored – cyfle i'ch plentyn ddangos ei waith / gwaith a'r dosbarth i chi.
Tymor yr Haf: Cyfle i chi wneud apwyntiad Noson Rieni i drafod yr adroddiad ysgrifenedig.

DOJO



Rydym yn defnyddio app o'r enw Class Dojo i gyfathrebu â chi ac i ddangos lluniau o waith y plant. Bydd unrhyw wybodaeth neu negeseuon pwysig yn cael eu anfon atoch drwy Dojo, a gallwch chi hefyd gysylltu â'r athrawon yn yr un modd. Byddwch yn derbyn e-bost er mwyn i chi fewngofnodi i Dojo dosbarth eich plentyn. Cewch wybodaeth hefyd drwy gylchlythyr wythnosol y Pennaeth.

# Ein Nodau ac Amcanion

"Amcan addysg plant dan bump yw cynhyrchu plant hapus, hyderus ac ymholgar sydd â diddordeb mewn bywyd ac yn frwd ynghylch pob sialens."

Rydym yn ceisio gwneud hyn trwy greu awyrgylch ddiogel ac atyniadol; gwerthfawrogi ymdrech plant; a chyflwyno gweithgareddau gwahaniaethol, cynhwysol ac ymarferol sy'n annog annibyniaeth.

## CAM CYNNYDD 1

Fel rheol, mae plant y Dosbarth Derbyn yn dilyn Cam Cynnydd 1 o'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'r plant yn cael eu addysgu trwy weithgareddau ymarferol o dan gyfarwyddyd yr oedolyn, trwy brofiadau, a syniadau a gychwynnir gan y plant. Mae chwarae yn bwysig i blant ddatblygu sgiliau dyfalbarhau, sylwi, arsylwi, canolbwyntio a sgiliau cymdeithasol ymysg pethau eraill. Rydym yn asesu datblygiad y plant yn rheolaidd ac yn cynllunio gweithgareddau o ganlyniad i hyn.

# Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Anogir plant i gyfathrebu trwy siarad, gwrando, ysgrifennu, darllen, chwarae creadigol a chwarae rôl. Anogir y plant i ddefnyddio'r Gymraeg trwy pob gweithgaredd yn ystod y dydd.




**Sut allwch chi helpu:**

Os ydych yn poeni am sut i helpu siaradwch gydag athrawes eich plentyn. Os ydy'ch plentyn yn cymryd diddordeb mewn ysgrifennu cofiwch alw'r llythrennau wrth eu swn a chewch wybodaeth am sut i ffurfio oddi wrth yr athro dosbarth. Mae rhaglenni addas i'r plant ar S4C bob dydd. Rhowch ganmoliaeth iddynt am wneud ymdrech. Byddwch yn fodel positif o pam fod angen dysgu, er enghraifft dangoswch eich bod yn un sy'n mwynhau darllen, a bod pwrpas i ddarllen ac ysgrifennu.

# Mathemateg a Rhifedd





Rhoddir amrywiaeth o brofiadau ymarferol i'r plant er mwyn hyrwyddo eu gwybodaeth, sgiliau a chysyniadau mathemategol yn y meysydd siâp, gofod, patrwm, pwysau, mesur, rhif ac arian.

**Sut allwch chi helpu:**

Gallwch dynnu sylw at gysyniadau mathemategol pob dydd, er enghraifft rhifau ar ddrysau, cyfri wrth gerdded, arian wrth siopa. Gallwch gyfri sanau yn y fasged olchi neu dynnu sylw at siapiau o amgylch y lle.

# Y Dyniaethau



Mae'r plant yn dysgu am y byd o'u hamgylch e.e. pobl sy'n ein helpu, byd natur, hanes a daearyddiaeth; defnyddio ffynonellau gwybodaeth amrywiol; cysyniad amser; y tymhorau a bwyd ac yn dysgu am ddiwylliannau amrywiol.

**Sut allwch chi helpu:**

Tynnwch sylw at y byd o'u cwmpas fel bod cyfleoedd yn codi o ddydd i ddydd. Trafodwch yn syml os yn bosib.

# Iechyd a Lles

Rydym yn ceisio datblygu'r plant i fod yn unigolion sydd yn medru creu perthynas ag eraill. Byddant yn cael y cyfle i wneud hyn trwy chwarae a gweithgareddau eraill fel unigolion, pâr, grŵp a dosbarth cyfan. Rydym yn eu hannog i gyfathrebu ag eraill ac i fod yn hyderus, annibynnol a chyfrifol. Byddant hefyd yn datblygu sgiliau mân (e.e. defnyddio pensil), a mawr (e.e. neidio) trwy amrywiaeth o weithgareddau.

**Sut allwch chi helpu:**

Siaradwch yn bositif gyda'ch plentyn am ffrindiau, gweithgareddau a.y.y.b. Anogwch nhw i fod yn annibynnol a chyfrifol e.e. i dacluso teganau, gwisgo eu hunain a rhannu. Gall plant ddatblygu sgiliau mân trwy ddefnyddio pensil, brwsh paent, toes, torri gyda siswrn, cau botymau neu botel ac ati. Gallant ddatblygu sgiliau mawr trwy daflu, dal neu gicio pêl, neidio, reidio beic, dringo a.y.y.b.

# Y Celfyddydau Mynegiannol

Yn yr adran hon mae plant yn gwneud gwaith arlunio a chrefft (dewis amrywiaeth o ddeunyddiau a gwerthfawrogi gwaith eraill); cerddoriaeth (canu, gwrando ar gerddoriaeth a chwarae offeryn syml); chwarae rôl a chwarae dychmygol.

**Sut allwch chi helpu:**

Rhowch gyfleoedd i'ch plant arbrofi gydag amrywiaeth o ddeunyddiau e.e. pensiliau, creonau, deunydd gludlun, siswrn, glud. Anogwch eich plentyn i ganu, gwrando ar amrywiaeth o gerddoriaeth ac i chwarae offeryn syml. Rhowch gyfleoedd iddynt chwarae'n ddychmygol er enghraifft gyda doli, a dillad gwisgo lan.

# Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae'r Maes hwn yn tynnu ar ddisgyblaethau bioleg, cemeg, gwyddoniaeth gyfrifiadurol, dylunio a thechnoleg, a ffiseg er mwyn dyfnhau gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o'r byd.

**Sut allwch chi helpu:**
Mae chwilfrydedd am wyddoniaeth a thechnoleg yn ein hannog i ofyn cwestiynau am y byd o'n cwmpas. Ewch am dro a siaradwch am y byd o'n cwmpas - byd natur ac ati, er mwyn ennyn chwilfrydedd. Rhowch digon o gyfleoedd iddynt chwarae, adeiladu, arbrofi gyda theganau.



# Cwestiynau

**Pa fanteision sydd i fy mhlentyn fod yn ddwyieithog?**

- Mae ymchwil yn dangos fod plant sy'n siarad mwy nag un iaith yn gallu meddwl yn fwy creadigol a hyblyg.
- Mae manteision economaidd o fod yn ddwyieithog, yn enwedig pan yn chwilio am swydd yng Nghymru.
- Mae siarad iaith arall yn agor drysau i amrywiaeth o gyfleoedd a gweithgareddau gwahanol.
- Mae'n cynnig y cyfle i brofi diwylliant gwahanol a dau fyd o brofiad.
- Gall helpu pobl i deimlo'n rhan o Gymru a chynyddu'r teimlad o berthyn.
- Dwy iaith—dwywaith y dewis a dwywaith y cyfleoedd.

**Ydy Cymraeg yn iaith anodd i'w ddysgu?**

- Nac ydy! Gyda chefnogaeth gall unrhyw blentyn ddysgu'r Gymraeg.

**A yw plant yn cymysgu rhwng y ddwy iaith?**

- Yn y dechrau bydd rhai plant yn defnyddio cymysgedd o'r ddwy iaith ond cyn hir byddant yn gallu gwahaniaethu rhwng y ddwy iaith. Byddant yn ateb yn yr iaith mae'r person sy'n siarad â nhw yn defnyddio.
- Mae ymchwil yn dangos fod y gallu i siarad mwy nag un iaith yn gwella gallu plant i ddysgu a defnyddio ieithoedd yn gyffredinol.
- Mae canlyniadau diweddar hefyd yn awgrymu bod plant sy'n derbyn addysg ddwyieithog yn gallu gwneud yn well mewn pynciau ar draws y cwricwlwm gan gynnwys Saesneg.

**Os ydy un rhiant yn siarad Cymraeg, sut allant helpu?**

- Mae hyn yn sefyllfa gyffredin yng Nghymru. Mae'n bwysig fod y rhiant sy'n medru siarad Cymraeg yn siarad Cymraeg gyda'r plentyn cymaint â phosib. Mae hefyd yn bwysig eich bod yn dangos agwedd bositif at yr iaith. Dangoswch eich bod yn mwynhau siarad Cymraeg a bydd eich plentyn yn hefyd!

**Sut bydd y rhiant na all siarad Cymraeg yn teimlo a sut allant helpu?**

- Mae'r rhan fwyaf o blant wrth eu bodd yn esbonio beth sy'n cael ei ddweud yn Gymraeg!
- Mae'n bwysig ei bod nhw'n cefnogi'r plentyn ac yn cymryd diddordeb.
- Gall fod o help i'ch plentyn drafod yn Saesneg yr hyn maent wedi dysgu yn Gymraeg.

**Rwy'n hoffi darllen gyda fy mhlentyn, oes rhaid darllen yn Gymraeg?**

- Nac oes, darllen gyda nhw sy'n bwysig. Unwaith bydd eich plentyn wedi dysgu darllen byddant yn defnyddio'r un sgiliau i ddarllen yn y Gymraeg ac yn Saesneg.

# Apiau addas i'r Cyfnod Sylfaen / Suitable apps for the Foundation Phase.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Tric a Chlic | Llyfrau Magi Ann | Cyfri gyda Cyw | Cyw a'r Wyddor | Daisy the Dino |
| Alun yr Arth | Beebot | Celf gyda Sam | Puppet Pals | Apiau arall Cyw |
| Llythrennau (Big Clic) | Rhifedd (Big Clic) | | | |

Dilynwch ni ar Drydar

Follow us on Twitter

@SiarterIaithPC

Edrychwn ymlaen i'ch cwrdd a gwneud atgofion melys llawn hwyl gyda'ch plentyn.